

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR PERSONÉL 12 MEDI 2017

Presennol
Cadeirydd Cyng C Williams

Cynghorwyr
E Hughes, E Lovgreen, A Hopcyn, S Sage, I C Thomas

Ethol swyddogion

Cafodd Cyng C Williams ei ethol yn unfrydol fel Cadeirydd
A cafodd Cyng E Lovgreen ei hethol yn unfrydol fel Is Gadeirydd

1. Ymddiheuriadau

Cyng B Owen

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

Dim

4. Materion staffio

Clerc yn bryderus ers bod y Gofalwr wedi symud i Sir Fôn bod angen edrych ar y rhestr larwm

Ar hyn o bryd y gofalwr sydd gyntaf, wedyn y cleric, wedyn y glanhawr (sydd ddim yn aelod o staff) ac yna yr ysgrifenyddes

Poeni mae'r cleric fydd y larwm yn canu am dros 20 munud cyn fysa'r gofalwr yn medru bod yma ag a yw hyn yn ymarferol.

Penderfynwyd

Edrych i mewn i system "lock safe" ac ambell aelod o'r pwyllgor i fod a goriad drws ffrynt ac yna Access i weddill y goriadau yn y box locksafe (ac efallai bysa angen creu rhestr syml o beth i wneud a rhifo'r stafelloedd i'r goriadau)

Cafodd y pwyllgor eglurhad bod y clerc yn disgwyl triniaeth ysbyty fydd yn golygu cyfnod hir o'i gwaith ac felly angen meddwl am gynllun cynorthwyol i sicrhau rhediad esmwyth o'r swyddfa a cymorth i Gwyneth yn ystod y cyfnod hwnnw a dyma nifer o bwyntiau o sut oeddem yn teimlo gellir wneud hyn:-

- Mae'r gofalwr yn fodlon gwneud oriau ychwanegol pan fydd stafelloedd wedi eu llogi ar ôl 3 o gloch
- Mi wneith Y Maer , Dirprwy a cadeirydd personél sicrhau bod Gwyneth yn cael cefnogaeth i helpu lle i gyfeirio wahanol materion. Fydd y tri uchod ynghyd ag aelodau eraill o'r pwyllgor yn dod i mewn adeg cinio Gwyneth am 12 pan fydd stafelloedd wedi llogi (ceith Gwyneth cloi a rhoi arwydd pam nad oes) gan bod hawl cyfreithiol iddi cael brêc swyddogol . Ac fydd rhywun yn o leiaf ffonio Gwyneth bob dydd i sicrhau bod hi yn iawn a dim angen help
- Angen i gadeirydd bob pwyllgor sefyll fyny i'w cyfrifoldeb o sicrhau bod cyfarfodydd yn gael eu galw yn amserol ag ati os fydd angen
- Angen cynghorwyr (gwirfoddolwr ar y noson) i gymryd nodiadau mewn cyfarfodydd fel cymorth i Gwyneth
- O'r cyfarfod gwreiddiol gafodd y clerc gyda'r Maer a Cadeirydd personél nodwyd bod cyn clerc Felinheli Mr Wynne Barton yn fodlon galw heibio os oes mater cyfreithiol yn codi ac yn fodlon dod i cyfarfodydd os fydd Y Maer yn teimlo bod angen cefnogaeth swyddog priodol ar gyfer unrhyw drafodaeth
- Gwyneth i ateb e-byst i gyd ond gofyn wrth aelodau am unrhyw gymorth os ddim yn siŵr beth sydd angen (clerc a Gwyneth i greu geiriad addas fydd yn egluro bod y Clerc i ffwrdd ond bod y swyddfa am geisio delio ar mater gorau gallent)
- Edrych ar y posibiladau o fod angen fwy o staff yn y dyfodol criw i edrych ar swydd disgrifiad y clerc a'r ysgrifenyddes i weld pa rôl newydd (os o gwbl) fydda ei angen

Gorffennodd y Cyfarfod am 7.05

Arwyddwyd Dyddiad

